

YMARFER 6: Sylwadau

The pain and grief that follows bereavement can be made much worse by identity fraud of the deceased.¹ According to the Fraud Prevention Service, impersonation of the dead is Britain's fastest growing identity theft crime.² Some 70,000 families have experienced the pain of discovering that a loved one had been impersonated after their death – via the unlawful interception of mail items such as credit cards, bank statements and loan account information³.

The 'victim' of an ID theft is currently defined as being a bank or a lending institution – not an individual.⁴ The Bereavement Register (TBR) is battling to raise awareness of the need for legal recognition of the rights of the deceased in law. The deceased have no legal rights. Anyone can track down their details and send stuff out that really pulls on the heart strings of those left behind.⁵ And when people are very recently bereaved, they are so vulnerable.

The worst culprits are those that send junk mail advertising clairvoyants, astrologers, vitamin supplements or weight loss plans. Older, lonely people easily fall for these things and part with what little money they have on bogus offers.⁶

Currently there are around 2.8 million people on the Register, and 72% of all UK direct mail that is data cleansed before being dispatched is screened against TBR.⁷ The register is recommended by the police, funeral directors and Death Registrars.

1. **Cywair/
Cystrawen/
Ysytr** **The pain and grief that follows bereavement can be made much worse by identity fraud of the deceased.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Gall y poen a'r gofid sy'n dilyn profedigaeth ei waethygu os ceir achos o dwyll personu ar yr ymadawedig.*
2. *Gall y boen a'r galar sy'n dilyn profedigaeth fod yn llawer gwaeth o ganlyniad i dwyll hunaniaeth yr ymadawedig.*
3. *Fe all fod y poen a'r galar a ddaw yn sgil profedigaeth gael ei gynyddu'n fawr wrth i hunaniaeth yr ymadawedig gael ei dwyn.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae'r poen a'r galar sy'n dilyn profedigaeth yn gallu cael eu*

gwaethygu'n llawer mwy gan dwyll hunaniaeth mewn perthynas â'r ymadawedig.

- 2. Mae cymryd hunaniaeth person marw drwy dwyll yn gallu gwneud y boen a'r galar sy'n dilyn profedigaeth yn llawer gwaeth.*

SYLW:

1. Nid yw gwir ystyr brawddeg Afl.1 yn glir o gwbl. Ai cyfeirio at 'profedigaeth' y mae'r cyfieithydd wrth ddweud *ei waethygu?* Go brin, oherwydd mae 'profedigaeth' yn air benywaidd ac felly dylai achosi'r treigliad meddal ar ôl yr *ei* sy'n cyfeirio ato. Mae'n debyg, mai'r gwall sydd yn y frawddeg hon, ac yn Afl.3 isod, yw anghofio bod *poen a galar* yn ddau beth ac felly'n gofyn am yr 'eu' lluosog. Gwelir hynny yn Ll.1, *yn cael eu gwaethygu.*
2. Mae'r ymadrodd *os ceir achos o dwyll personu ar yr ymadawedig* yn Afl.1 yn drwsgl. Nid *personu* yw'r gair gorau am 'impersonate'; byddai 'personoli' yn well neu'r gair mwy cyfreithiol 'personadu'.
3. Sylwch ar yr amwysedd sy'n codi yn Afl.2 drwy ddweud *o ganlyniad i dwyll hunaniaeth yr ymadawedig.* Fel y saif, gallech gredu mai'r 'ymadawedig' sydd wedi cyflawni'r 'twyll hunaniaeth'. Llwyddodd brawddeg Ll.1 i osgoi hyn drwy ddweud *gan dwyll hunaniaeth mewn perthynas â'r ymadawedig.* Mae brawddeg Ll.2 wedi troi'r frawddeg a thrwy hyn wedi creu brawddeg sy'n rhedeg yn esmwyth yn y Gymraeg ac yn osgoi'r maglau.
4. Nid yw brawddeg Afl.3 yn rhedeg yn gywir – *Fe all fod y poen... gael ei gynyddu.* Mae ôl diffyg golygu ar y frawddeg hon.
5. Fe sylwch fod *y poen* a *y boen* yn digwydd ochr yn ochr yn y brawddegau uchod. Mae'r ddau yn dderbyniol gan y gall y gair 'poen' fod yn wrywaidd neu yn fenywaidd. Ond mae'n rhaid bod yn gyson wrth drin gair o'r fath o fewn darn.

**2. Cywair/
Cywirdeb/
Ystyr**

According to the Fraud Prevention Service, impersonation of the dead is Britain's fastest growing identity theft crime.

Cyfieithu aflwyddiannus:

- 1. Yn ôl y Gwasanaeth Atal Twyll, personadu person marw yw'r drosedd dwyn hunaniaeth sy'n cynyddu cyflymaf ym Mhrydain.*
- 2. Yn ôl y Gwasanaeth Atal Twyll, dynwardiad o'r meirw yw'r drosedd dwyn hunaniaeth sy'n tyfu fwyaf ym Mhrydain.*
- 3. Yn ôl y Gwasanaeth Atal Twyll, personadiad o'r meirw yw un o'r troseddau twyll adnabod sy'n tyfu cyflymaf ym Mhrydain.*
- 4. Yn ôl y Gwasanaeth Atal Twyll, y trosedd o ddynwarded yr ymadawedig yw'r trosedd dwyn hunaniaeth fwyaf cyffredin ym Mhrydain.*

Cyfieithu llwyddiannus:

- 1. Yn ôl y Gwasanaeth Atal Twyll, ffugio bod yn berson sydd wedi marw yw'r drosedd lladrata hunaniaeth sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain.*

SYLW:

1. Ni threiglwyd ffurf eithaf yr ansoddair *cyflymaf* yn Afl.1 nac yn Afl.3 fel y dylid gwneud pan fydd yn adferfol ei swyddogaeth. Gweler *Gramadeg Cymraeg* gan David Thorne, tud. 47 ac 163. Fe welir y treigliad yn ei le yn y frawddeg llwyddiannus.
2. Nid yw *dynwared* yn cyfleu union ystyr 'personadu' rhywun. Bron na ddywedwn fod ei ystyr yn rhy ddiniwed!
3. Cofier bod y Saesneg yn defnyddio'r enw haniaethol yn gyffredin iawn, er enghraifft, 'impersonation', lle bydd y berfenw yn fwy naturiol yn y Gymraeg. Mae angen gofal wrth ymdrin â chystrawen y genidol. Mae lle i wella ar yr ymadroddion yn Afl.2 ac Afl.3 a dylid defnyddio berfenw i gyfleu'r enw haniaethol, er enghraifft, 'dynwared yr ymadawedig' a 'personadu'r meirw'. Sylwch hefyd nad yw'r Gymraeg yn trosi'r 'of' Saesneg. Gellwch ddarllen rhagor am y genidol (ymadroddion enwol dibynnol) yn *Gramadeg y Gymraeg* (Peter Wynn Thomas), tt. 320–4.
4. Gwelwyd uchod fod cenedl gair, fel 'y poen'/'y boen' yn bwysig am fod hynny'n rheoli nifer o elfennau mewn brawddeg, er enghraifft, treiglo ansoddair a gwybod pa dreigliad sydd i ddilyn 'ei' a'r fannod. Mae *trosedd* yn un arall o'r geiriau hynny a all fod yn fenywaidd neu yn wrywaidd. Sylwch mai benywaidd yw yn y frawddeg llwyddiannus (*yw'r drosedd*) ond yn Afl.4, ceir *y trosedd*. Byddai hynny'n dderbyniol petai'r cyfieithydd wedi'i drin drwy'r darn yn wrywaidd a pheidio â threiglo'r ansoddair *fwyaf* ar ei ôl fel petai'n enw benywaidd – *y trosedd... fwyaf*.

3. Cystrawen/ Cywair/ Ystyr

via the unlawful interception of mail items such as credit cards, bank statements and loan account information.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...gan fod llythyrau yn cael eu hagog yn anghyfreithlon, eitemau tebyg i gardiau credyd, datganiadau banc a gwybodaeth am gyfrif benthyciad.*
2. *...drwy ryngdorri anghyfreithlon o eitemau megis cardiau credid (sic), sylwebau banc a gwybodaeth cyfrif llog.*
3. *...drwy gyfrwng rhyngdoriad anghyfreithlon eitemau drwy'r post fel cardiau credid (sic), datganiadau banc a gwybodaeth cyfrif benthyciad.*
4. *...drwy ryngipio yn anghyfreithlon eitemau yn y post megis cardiau credyd, datganiadau banc a gwybodaeth am gyfrifon benthyciad.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...drwy agor gohebiaeth megis cardiau credyd, cyfriflenni banc a gwybodaeth am gyfrifon benthyciadau yn anghyfreithlon.*

SYLW:

1. Fel y nodwyd yn Sylw 3 uchod, mae'r Saesneg yn defnyddio'r enw haniaethol yn gyffredin iawn, er enghraifft, 'interception', lle bydd y berfenw yn fwy naturiol yn y Gymraeg. Mae angen gofal wrth ymdrin â chystrawen y genidol. Mae lle i wella ar Afl.2 a dylid defnyddio berfenw i gyfleu'r enw haniaethol, er enghraifft, 'agor

gohebiaeth' a 'rhyngdorri anghyfreithlon eitemau drwy'r post'. Sylwch eto nad yw'r Gymraeg yn trosi'r 'of' Saesneg. Gellwch ddarllen rhagor am y genidol (ymadroddion enwol dibynnol) yn *Gramadeg y Gymraeg* (Peter Wynn Thomas), tt. 320–4. Nid yw'r geiriau *rhyngipio* a *rhyngdorri* yn taro ddeuddeg yn y cyd-destun hwn. Mae *agor* yn dweud yn union beth a ddigwydd i'r eitemau post.

2. Mae 'benthyg' a 'benthyca' yn rhai o'r geiriau Cymraeg y mae gofyn bod yn ofalus o'u hystyr wrth gyfieithu. Gallant gyfleu 'to borrow' a 'to lend'. Dylid gofalu dangos mai 'rhoi benthyg' a wneir ac nid 'cael benthyg'. Mae'r ystyr yn Afl.4 yn anghywir beth bynnag, oherwydd mae'r ffurf *benthyg* yn ansoddair sy'n golygu 'borrowed'. Mae'r gair 'yswirio' yn codi'r un broblem.

3. Mae'r termau a ddefnyddir yn Afl.2 yn anghywir. Gellid disgwyl y byddai unrhyw gyfieithydd gwerth ei halen yn gwybod y termau am 'gyfriflenni' a 'benthyciadau'. Nid ydynt mor arbenigol â hynny i unrhyw un sy'n ymdrin â banc.

4. **Ystyr/
Cystrawen/
Cywair**

The 'victim' of an ID theft is currently defined as being a bank or a lending institution – not an individual.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae ysglyfaeth lladrad hunaniaeth (ID) ar hyn o bryd yn cael ei ddiffinio fel bod yn sefydliad banc neu benthyca.*
2. *Ar hyn o bryd, y banc neu'r sefydliad benthyg sy'n cael ei ystyried fel 'ysglyfaeth' y drosedd o ddwyn hunaniaeth – nid yr unigolyn.*
3. *Mae dioddefwr lladrad ID yn cael eu diffinio fel banc neu sefydliad sy'n benthyca...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Ar hyn o bryd, y diffiniad o 'ddioddefwr' lladrad manylion personol yw banc neu sefydliad benthyca – nid unigolyn.*

SYLW:

1. Nid yw'r gair *ysglyfaeth* yn Afl.1 ac Afl.2 yn taro deuddeg rywsut er ei fod yn awgrymu bod y dioddefwr yn cael ei hela. Mae *dioddefwr* yn well yn y cyd-destun hwn.
2. Gweler uchod y sylw am y gair 'benthyg'. Mae'r ystyr yn amwys yma hefyd.
3. Mae Afl.1, Afl.2 ac Afl.3 yn defnyddio *fel* i gyfleu'r 'as' Saesneg. Byddai 'diffinio + yn' yn fwy cywir. Gwelwch *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, tud. 348.
4. Yn Afl.3, gwelwn enghraifft o gynnwys *eu* lluosog i gyfeirio at yr enw unigol *dioddefwr*.
5. Yn y frawddeg llwyddianus, mae'r cyfieithydd wedi newid trefn y frawddeg a llwyddo drwy hynny i osgoi'r *fel*.

5. **Cywair/
Ystyr/**

Anyone can track down their details and send stuff out that really pulls on the heart strings of those left behind.

Cywirdeb

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *Gall unrhyw un gael gafael ar eu manylion a'u defnyddio nhw er eu dibenion ei hunain, gan achosi loes a thor calon i'r rhai a adewir ar ôl.*
2. *Gall unrhyw un fynd ar drywydd eu manylion ac anfon pethau sy'n wirioneddol cyffwrdd calonnau'r rheiny sy'n cael eu gadael ar ôl.*
3. *Gall rhywun ddod o hyd i'w manylion a danfon deunydd a allai fynd yn syth i galon y galarwyr.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Gall unrhyw un olrhain eu manylion ac anfon deunydd sy'n cyffwrdd calon y rhai a adawyd*

SYLW:

1. Mae Afl.1 wedi cyflwyno fersiwn llac o'r gwreiddiol. Nid oes sôn yn y gwreiddiol am 'use them for their own purpose'. Mae gweddill y frawddeg yn darllen yn dda. Mae'n ofynnol i gyfieithydd allu troedio'r ffin denau rhwng cyfieithu'n llac a chyfieithu'n slafaidd.
2. Mae Afl.2 yn dangos methiant treiglo yn *sy'n wirioneddol cyffwrdd*. Mewn ymadrodd fel hwn, a ystyrir yn ferfenw cyfansawdd, ni threiglir ar ôl yr 'yn' berfenwol. Cymharwch *yn cyffwrdd*. Ond bydd yr ail elfen yn treiglo. Felly, disgwylid 'yn gwirioneddol gyffwrdd' yma. Cewch ragor o wybodaeth am hyn yn *Gramadeg y Gymraeg*, gan Peter Wyn Thomas, tt. 121–2.
3. Mae rhyw amwysedd i'w weld hefyd yn Afl.3, yn enwedig y rhan *a allai fynd yn syth i galon y galarwyr*. Beth sy'n mynd i'w calon? Y post diangen? Neu'r weithred ei hun? Hefyd cofier bod gwahaniaeth rhwng 'rhywun' = 'somebody' ac 'unrhyw un' = 'any one'.
4. Yn Afl.3, gwelwn ddefnyddio *danfon* am 'send'. Mae ystyr 'danfon' yn wahanol i ystyr 'anfon'. Wrth gwrs, 'send' yw'r Saesneg am y ddau ond mae ystyron gwahanol i 'send' hefyd. Gall 'danfon' olygu 'hebrwng' neu 'gludo rhywbeth i'w gyrchfan'. Ystyr syml 'anfon/gyrru' sydd yn y darn hwn.
5. Sylwch mor ddiwastraff y mae'r frawddeg lwyddiannus yn osgoi dilyn y Saesneg blodeuog.

6. Cywair/ Ystyr/ Cywirdeb

Older, lonely people easily fall for these things and part with what little money they have on bogus offers.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae pobl hŷn, unig yn cael eu dal yn rhwydd gan y pethau yma ac yn ymadael a'u (sic) harian prin ar y cynigion ffug.*
2. *Mae pobl sy'n unig a phobl hŷn yn bachu ar y pethau hyn yn rhwydd, gan wahanu gyda'r ychydig arian sydd ganddynt ar gynigion ffug.*
3. *Mae pobl hŷn, unig yn cael eu bachu gan y pethau hyn yn hawdd a chael gwared â'r ychydig arian sydd ganddynt ar gynigion ffals.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae pobl hŷn, unig yn cael eu twyllo'n hawdd gan y rhain ac yn gwario eu ceiniogau prin ar gynigion ffug.*

SYLW:

1. Mae Afl.1 ac Afl.2 yn ceisio cyfieithu'r Saesneg 'part with' air am air, er enghraifft, *gwahanu gyda'u harian* ac *ymadael a'u harian* ('â' – gan gofio mai 'â' sy'n dilyn berfau ag 'ym' ynddynt fel 'ymwneud â', 'ymladd â', 'ymgyfarwyddo â').
2. Tybed ai *cael eu bachu* neu *fachu ar* yw'r ffordd orau i gyfieithu 'fall for these things'? Mae'r cyfieithiad llwyddiannus yn cyfleu'r ystyr yn ddi-lol – *cael eu twyllo'n hawdd*.

7. **Cywair/
Ystyr/
Cywirdeb**

Currently there are around 2.8 million people on the Register, and 72% of all UK direct mail that is data cleansed before being dispatched is screened against TBR.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Yn gyfredol, mae tua 2.8 miliwn o bobl ar y Gofrestr, ac mae 72% o'r post uniongyrchol a anfonir yn y DU yn cael ei ddata lanweithio cyn iddo gael ei ddosbarthu, ac fe gaiff ei sgrinio yn erbyn y Gofrestr Profedigaeth.*
2. *...ac mae 72% o bost uniongyrchol y DU y glanhair ei ddata cyn ei anfon yn cael ei sgrinio yn erbyn y Gofrestr Profedigaeth.*
3. *...ac mae 72% o'r post uniongyrchol yn y DU yw data sy'n cael eu ffiltro cyn iddynt gael eu hanfon yn cael eu sgrinio yn erbyn TBR.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Ar hyn o bryd, mae tua 2.8 miliwn o bobl ar y Gofrestr, ac mae 72% o holl bost uniongyrchol y DU y caiff ei ddata ei wirio cyn ei anfon, yn cael ei sgrinio yn erbyn y Gofrestr Brofedigaethau.*

SYLW:

1. Mae Afl.1 wedi ceisio efelychu patrwm y Saesneg 'data cleansed' drwy ddweud *ei ddata lanweithio*. Digwydd ymadroddion tebyg eu strwythur yn gyffredin yn y Saesneg ond anaml y byddant yn trosi'n esmwyth i'r Gymraeg. Mae gofyn aralleirio i gyfleu ystyr yr ymadrodd cyfansawdd hwn fel y gwelwch yn y frawddeg lwyddiannus uchod lle ceir cymal perthynol i gyflwyno'r ystyr. Mae Afl.2 hefyd wedi defnyddio cymal perthynol.
2. Nid yw Afl.3 yn rhedeg yn esmwyth. Nid yw'r ystyr yn gywir chwaith os yw'r rhagenwau personol 'eu' yn cyfeirio at 'data'. Sôn am y 'post' y mae'r frawddeg a hwnnw sy'n cael ei sgrinio.

* **Cywirdeb**

Cafwyd llawer o wallau sillafu a gwallau teipio:

- credid – credyd
- hunianaeth – hunianaeth
- mae nhw – maen nhw

- car – câr
- meant – maent
- diffunio –diffinio
- cynnigon – cynigion
- idnetiti – (ai ymgais i Gymreigio) identiti
- tor calon – torcalon ni does/ni d oes – nid oes

SYLW:

Gan mai gwallau teipio yw amryw o'r rhain, mae'n debygol y byddai golygu gofalus cyn cyflwyno'r gwaith wedi eu gweld a'u cywiro. Mae'n amlwg nad yw'r ymgeisydd yn gwybod pryd i ddyblu 'n'. Gallai defnyddio adnodd cywiro *Cysgair* fod wedi cael gwared ar nifer fawr o'r rhain ond cofier bod eisiau gofal wrth ddefnyddio'r adnodd cywiro, rhag ofn i'r meddalwedd gredu mai gair arall sydd i fod yn y cyd-destun dan sylw, er enghraifft, 'rhieni' yn lle 'rheini'.

Trafodwyd y gwallau treiglo niferus wrth ymdrin â Chystrawen uchod.